# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-04-08 (p4): 06 Mawrth 2008

## Deisebau Newydd

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir gryno am bob un o'r deisebau sydd i'w hystyried am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ar 06 Mawrth 2008. Mae geiriad y ddeiseb wedi ei ddarparu ynghyd â dogfennau ategol sydd i'w gweld fel atodiadau i'r papur hwn.

## (i) P-03-088 Gwasanaethau bws gwledig yn Nhaliesin

#### Geiriad y Ddeiseb

'Yr ydym ni sydd wedi arwyddo isod, yn pryderu am newid yn yr hinsawdd ac yn awyddus i leihau ein hallyriadau carbon. Yn anffodus, mae'r gwasanaethau bws sy'n cysylltu'n pentref ni (Tre Taliesin) â'n trefi lleol sef Aberystwyth a Machynlleth yn anaml ac yn ddrud ac mae hyn yn gwneud cymudo â char bron â bod yn orfodol.

Yr ydym yn annog y Cynulliad Cenedlaethol i fuddsoddi mewn gwasanaethau bws fforddiadwy a mwy rheolaidd yng nghefn gwlad Cymru, oherwydd credwn mai diffyg system drafnidiaeth gyhoeddus integredig yw un o'r rhwystrau mwyaf i ddatblygu cymdeithas gynaliadwy yng Nghymru.'

#### Cefndir

Derbyniwyd y ddeiseb hon gan y Clerc Deisebau ym mis Tachwedd 2007. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth gan y deisebwyr, fodd bynnag, nid ydynt wedi ymateb hyd yma. .

## (ii) P-03-90 Gwasanaethau bws hygyrch yn Sir Benfro

#### Geiriad y Ddeiseb

'Dylai Sir Benfro fod â bysiau mwy hygyrch ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn'

#### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Paul Davies AC ar ran Pennaeth a disgyblion Ysgol Portfield yn Hwlffordd. Dyma'r unig ysgol anghenion arbennig yn Sir Benfro.

## (iii) P-03-092 Ffordd Liniaru'r A465 i Ystâd Ddiwydiannol Tafarnaubach

#### Geiriad y Ddeiseb

'Deiseb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ffordd liniaru'r A465 i Ystâd Ddiwydiannol Tafarnaubach, i gymryd Cerbydau Nwyddau Trwm oddi ar hen Ffordd Merthyr y tu allan i Ysgol Bryn Bach a Phentref Princetown'

#### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Trish Law AC ar ran y deisebwyr, yn cael eu harwain gan Doug Harris. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth gan y deisebwyr; fodd bynnag, nid yw'r prif ddeisebwr wedi ymateb eto.

## (iv) P-03-103 Y Ddarpariaeth o Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Ne-ddwyrain Cymru

#### Geiriad y Ddeiseb

'Deiseb i wella Addysg Cyfrwng Cymraeg

Yr ydym ni, etholwyr siroedd Mynwy, Casnewydd a Chaerffili, yn deisebu'r Cynulliad a'r Cynghorau i sefydlu Ysgol Gyfun Gyfrwng Gymraeg newydd i wasanaethu'r siroedd.

Mae angen brys am ddarpariaeth addysg uwchradd yn yr ardal gan fod plant ar hyn o bryd yn cael eu gorfodi i oddef amseroedd teithio annerbyniol neu adael addysg cyfrwng Cymraeg yn gyfan gwbl'.

#### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Emma Hill, Cadeirydd Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) Sir Fynwy.

Mae Ms Hill wedi darparu llythyr eglurhaol yn amlinellu'r cefndir i'w deiseb mewn mwy o fanylder. Mae copi o hwn i'w weld fel atodiad PET(3) 03-08 Papur 4A. Yn gryno mae'n nodi:

Bod yr holl blant sy'n derbyn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd a Sir Fynwy yn cael eu cludo mewn bysiau i Ysgol Gwynllyw yn Nhor-faen.

Nad oes unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar lefel gyfun yn Sir Fynwy

Bod rhai plant yn teithio am hyd at ddwy awr bob ffordd er mwyn cael addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae'r deisebwyr am i'r Cynulliad Cenedlaethol gynorthwyo 'Awdurdodau Sir Fynwy' i ddatrys y broblem hon.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Chwefror 2008**